YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans
029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

29 Medi 2023

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,


*Taith gerdded noddedig 6ed dosbarth*

**Taith gerddded elusennol 6ed dosbarth:** Roedd yn hyfryd gweld dros 200 disgybl o'r Chweched yn cwblhau taith gerdded noddedig yn gynnar yn y tymor newydd. Llwyddwyd i godi £4000 ar gyfer yr elusen *2Wish* a llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, i'r staff a drefnodd y daith; a diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at y cyfanswm anhygoel hwn.

**Ymweliad STEM Blwyddyn 6:** Roedd yn bleser croesawu disgyblion blwyddyn 6 i Glantaf am y tro cyntaf, wrth iddynt ddechrau eu gweithgareddau pontio ar gyfer eleni. Fe wnaethon nhw fwynhau gweithgareddau STEM gan gynnwys dylunio gwefannau mewn TG, ac adeiladu pont yn yr adran Dechnoleg. Edrychwn ymlaen at groesawu rhieni blwyddyn 6 i Glantaf ar gyfer noson agored ar 10 Hydref, a bydd mwy o weithgareddau pontio yn dilyn.


*Ymweliad Adran Gelf i Lundain*

**Ymweliad Celf ag Orielau Llundain:** Mwynhaodd myfyrwyr celf ym ml 11 a'r 6ed ymweliad deuddydd i Lundain gan ymweld â'r Tate Modern, Amgueddfa Victoria ac Albert, a'r Amgueddfa Hanes Natur. Cawsant gyfle i brofi amrywiaeth o arddangosfeydd a chael ysbrydoliaeth ar gyfer eu Prosiectau Unigol, yn ogystal a chrwydro ardaloedd fel Leicester Square, Covent Garden a Chinatown.

**Profion CATs Blwyddyn 7:** Bydd disgyblion ym mlwyddyn 7 yn cwblhau eu profion CAT (profion asesu gwybyddol) yn yr wythnos sy'n dechrau ar 9 Hyd. Mae'r profion hyn, a gwblheir ar-lein, yn rhoi sgôr sylfaenol i ni ar gyfer disgyblion wrth iddynt ddechrau ar eu taith addysg uwchradd a hefyd yn rhoi trosolwg o'u galluoedd mewn gwahanol feysydd dysgu. Mae asesiadau CATs yn cael eu defnyddio'n eang mewn addysg yng Nghymru a ledled y DU. Rhoddir sgoriau i ddisgyblion sy'n ddefnyddiol i athrawon er mwyn ymateb i anghenion a chryfderau disgyblion unigol. Er hyn ni fyddwn yn defnyddio sgoriau CAT ar gyfer setio neu osod disgyblion mewn dosbarthiadau.

**Fy Llais:** Rydym yn falch iawn o lansio ein tudalen we "*Fy Llais*" yn yr ysgol yr wythnos hon mewn gwasanaethau arbennig sy'n tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd gall disgyblion adrodd am bryderon neu ofnau. Mae'n darparu llwyfan i blant a phobl ifanc geisio cyngor neu ddatrys anawsterau mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Gall disgyblion ddefnyddio'r cod QR sydd yn eu trefnydd personol i gael mynediad i'r dudalen gwe.

**Noson Rhieni Tiwtor Personol, ar 12 Hydref 3.30-6pm:** Byddwch yn derbyn gwybodaeth cyn bo hir am ein Noson Rhieni Tiwtor Personol sy'n golygu byddwch yn gallu cwrdd â Thiwtor Personol eich plentyn i drafod sut maent wedi ymgartrefu eleni. Mae'r cyfarfod bugeiliol hwn yn darparu sgwrs fer (3 munud) ar lwyfan *School Cloud* a bydd mwy o wybodaeth i ddilyn.

**Classcharts:** Newyddion da bod 94% o aelwydydd wedi lawrlwytho a defnyddio ein App Classcharts, a bod dros 73% o ddisgyblion yn defnyddio'r app er mwyn cael gafael ar wybodaeth. Cofiwch fod eiddo coll yn aml yn cael ei bostio ar yr ap er mwyn ailuno disgyblion gyda'u heiddo. Os oes angen cod neu fanylion am yr ap arnoch, cysylltwch â Ms E Wiltshire ar wiltshiree16@hwbcymru.net



*Fforwm Busnes Glantaf*

**Fforwm Busnes Glantaf:** Da cael croesawu ein Fforwm Busnes i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Mae cwmnïau sy'n gweithio gyda ni mewn partneriaeth yn cynnwys: STABLE; Pepper Money; Wilmott Dixon; Rio Architechs; Speakers 4 Schools; Ymrwymiad Caerdydd; Tŷ'r Cwmnïau; ISG a GIG Cymru. Rydym yn edrych ymlaen at ein gwaith dros y misoedd nesaf

**Key Dates**

- 2 Hydref – Noson Wybodaeth Blwyddyn 11. 6pm a 6.30pm (cyfrif TEAMS myfyrwyr)

https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ae2w8UQp0cybCAffLKZnCWBfY_HSGEaQJkkfllUH6Igg1%40thread.tacv2/1695802350977?context=%7b%22Tid%22%3a%224f3f0e52-b734-4164-9409-1b601d147993%22%2c%22Oid%22%3a%22d394e3c1-44a5-4c81-beec-b00bf519eea0%22%7d (Cyfarfod cyfrwng Cymraeg)

https://teams.microsoft.com/l/meetup-join/19%3ae2w8UQp0cybCAffLKZnCWBfY_HSGEaQJkkfllUH6Igg1%40thread.tacv2/1695802547829?context=%7b%22Tid%22%3a%224f3f0e52-b734-4164-9409-1b601d147993%22%2c%22Oid%22%3a%22d394e3c1-44a5-4c81-beec-b00bf519eea0%22%7d (cyfarfod cyfrwng Saesneg)

- Hydref 10 – Noson Agored Blwyddyn 6 (neuadd yr ysgol) 5pm (Cymraeg) a 6pm (Saesneg)
- Hydref 12 – Noson rhieni tiwtor personol (*School Cloud*) 3.30 – 6pm
- Wythnos dechrau 16 Hydref - Arholiad llafar Blwyddyn 11 Saesneg
- Hydref 16 – Noson Wybodaeth Blwyddyn 10: 6pm a 6.30pm (TEAMS)
- Hydref 26 – Noson Agored y Chweched Dosbarth yng Nglantaf am 5pm

Urdd

**Llangrannog:** Dymuniadau gorau i flwyddyn 7 a fydd yn mynd i Langrannog yr wythnos nesaf. Bydd y disgyblion yn mwynhau gweithgareddau sgïo, marchogaeth a beicio cwad, yn ogystal â chael cyfleoedd i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodyn i'ch atgoffa y gofynnir yn garedig i ddisgyblion **beidio â** dod ag unrhyw fyrbrydau sy'n cynnwys cnau, oherwydd y nifer o ddisgyblion sydd ag alergedd cnau difrifol. Mae angen i Flwyddyn 7 fod yn yr ysgol erbyn 8.30am ddydd Llun (02/10) a byddant yn dychwelyd tua 2pm brynhawn Gwener (diweddariad amser cyrraedd ar Classcharts).



*Fforwm Prif Swyddogion*

**Fforwm Uwch Swyddogion:** Roeddem yn falch iawn o sefydlu Fforwm Prif Swyddogion gyda chynrychiolwyr o Blasmawr, Glantaf a Bro Edern. Bydd y fforwm hwn yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr drafod syniadau ac awgrymu gwellianau i'n cymunedau.

**Gluniaduron:** Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd pob disgybl ym mlwyddyn 8 yn derbyn *Chromebook* personol i helpu gyda eu gwaith. Mae hyn yn dilyn llwyddiant o gynnig dyfais i bob disgybl yn Bl 8, 9, 10 ac 11 yn y blynyddoedd diweddar. Mae angen i rieni Bl8 i lofnodi'r cytundeb Screencastify a thalu y £8 tuag at yr amlen gwarchod ar *ParentPay* https://sites.google.com/glantaf.cymru/rhaglennu-glantaf/cynllun-dod-a-dyfais-1-1?authuser=0 . Byddant o bosib yn cael eu dosbarthu o'r 9 Hydref.

**Mentoriaid Cymar:** Roedd myfyrwyr Bl12 yn gallu elwa o hyfforddiant Mentor Cymar yr wythnos hon fel rhan o'n darpariaeth i gefnogi disgyblion sy'n gweld gwaith ysgol, neu fywyd ysgol yn anodd. Rydym yn dymuno'n dda iddynt wrth ddechrau eu gwaith yn ystod y pythefnos nesaf.

Fel bob amser, cysylltwch â ni os bydd unrhyw ymholiad neu alw am eglurhad a diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus,

Yn gywir

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



*Bl 7 yn cefnogi Cymru!*